GISDA
DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

Disgrifiad Rôl Gwirfoddolwr Cynorthwyydd Gegin

CYFRIFOL: **Gweithwyr prosiect Te a Cofi**
ADRAN: **Te a Cofi**
LLEOLIAD: **Caernarfon**

Pwrpas y Rôl: I wirfoddoli yng Ngaffi Te a Cofi yn cwlbhau tasgau caffi cyffredinol.
Prif dyletswyddau:

- I gyflwyno eich hun yn lan ac mewn cyflwr hylan
- i weini bwyd i gwsmeriaid mewn ffordd gwrtais
- I fod yn gyfeillgar a chael agwedd cwsmer da.
- i baratoi coffi/te yn defnyddio'r peiriant arbennig.
- Cadw'r cownter a mannau bwyd yn lan drwy'r amser
- Derbyn archebion bwyd
- Cynorthwyo'r cogydd i baratoi bwyd
- Gweithio mewn tîm gyda holl staff a gwirfoddolwr eraill

Manteision o wirfoddoli

- I ddysgu a datblygu sgiliau drwy brofiad ymarferol
- Datblygiad a/neu hyfforddiant personol a phroffesiynol
- Y gallu i archwilio gwahanol fathau o gyfleoedd gwaith yn wirfoddol
- Cyfle i fynd allan, cael hwyl a chwrdd â phobl newydd.
- Profi heriau newydd
- Cefnogi eich cymuned leol - rhoi rhywbeth yn ôl, boddhad personol gan wybod eich bod wedi helpu eraill
- Cryfhau eich CV.

Tynnir eich sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd iawn, mewn rhai achosion, i ddiffinio'n fanwl beth yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol. Mae'n bosib y byddant yn amrywio o bryd i'w gilydd ond heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau

MANYLION PERSON -Gwirfoddolwr

Hanfodol
Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol effeithiol yn y Gymraeg a Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig
Y gallu i ddelio gyda gwybodaeth sensitif a chyfrinachol
Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel aelod o dîm
Yn hyblyg i weithio yn unol â gofynion y dyletswyddau sydd ynglŷn â'r rôl

Dymunol
Profiad o weithio gyda' helpu pobl ifanc
Profiad o weithio mewn caffi neu cegin